

Agenda – Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Fideogynhadledd drwy Zoom	Manon George
Dyddiad: Dydd Mercher, 5 Awst 2020	Clerc y Pwyllgor
Amser: 09.00	0300 200 6565
	SeneddDGCh@senedd.cymru

Cofrestru

(09:00 – 09:30)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

2 Ymchwiliad i effaith pandemig COVID-19 ar newyddiaduraeth a'r cyfryngau lleol

(09:30–10:10)

(Tudalennau 1 – 12)

Alan Edmunds a Paul Rowland, Reach PLC

Egwyl

(10:10–10:25)

3 Ymchwiliad i effaith pandemig COVID-19 ar newyddiaduraeth a'r cyfryngau lleol

(10:25–11:05)

Martin Shipton a Pamela Morton, Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr



4 Papurau i'w nodi

4.1 Llythyr gan Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr

(Tudalen 13)

4.2 Ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad ar effaith COVID-19 ar y celfyddydau

(Tudalennau 14 – 16)

4.3 Llythyr gan y Pwyllgor Deisebau ar yr astudiaeth ddichonoldeb ynghylch cerddoriaeth

(Tudalen 17)

4.4 Gohebiaeth â Llywodraeth Cymru ar Gyllideb Atodol Gyntaf 2020–21

(Tudalennau 18 – 20)

5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

6 Ystyried y dystiolaeth

(11:05–11:20)

7 Ymchwiliad i effaith pandemig COVID-19 ar dreftadaeth, amgueddfeydd ac archifau: Trafod yr adroddiad drafft

(11:20–11:40)

(Tudalennau 21 – 39)

8 Ymchwiliad i henebion cyhoeddus: Y Cylch Gorchwyl Drafft

(11:40–12:00)

(Tudalennau 40 – 44)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 4.1

12 July 2020

Dear Member of the Senedd,

We are writing as lay officials of the National Union of Journalists who represent members working for Reach plc in Wales to seek your support and help in a situation that we believe poses a very serious threat to the media in Wales.

As you know, Reach is by far the largest publisher of newspapers in Wales, with a stable that includes the Western Mail, the Daily Post, the South Wales Echo, the South Wales Evening Post, Wales on Sunday and a number of associated weekly papers, as well as the news websites WalesOnline and North Wales Live.

On July 7 Reach announced that because of diminished revenues during the lockdown, it was making 550 jobs across Britain redundant.

On Friday July 10 details began to emerge about the impact of this announcement in Wales.

In Cardiff, more than 70 journalists were told their jobs are on a redundancy "at risk" list, while in North Wales the number of "at risk" journalists is 20.

While the plan is for a smaller number of journalists to leave - around 15 from Media Wales in Cardiff and Swansea, we understand, with an as yet unknown additional number from North Wales - the reduction will inevitably have a detrimental impact on news coverage in our nation.

NUJ members also have grave concerns about the group's commitment to Wales following a decision to effectively merge Media Wales - the Cardiff and Swansea operation - with an English division of Reach covering the Midlands, Cheshire and Lincolnshire.

There is no longer an editor-in-chief based in Cardiff, and the new cross-border division will be run by a "Marketplace Publisher" based in Birmingham.

Meanwhile the editor of the Daily Post has been removed from his post at very short notice and the business is run by a Marketplace Publisher based in the north west of England.

There are also plans to integrate the work of journalists working in Wales with the London-based "national" papers, the Daily Mirror, the Daily Express and the Daily Star, as well as their websites. At the same time, the intention is to replace stories and features produced by redundant writers who have been working in Wales with material produced by a "shared content" unit based in England.

Inevitably this would dilute the Welsh content of the brands and lead to the publication of health and education stories, for example, that have no relevance in Wales because of the devolution settlement. It would create additional confusion in readers' minds about which level of government was responsible for public services in Wales.

We regard these proposals as a major threat to our media and to our Welsh democracy. If you agree with us we ask you to express your concern by writing to one of the two senior executives driving the plans - Alan Edmunds, now chief operations officer of Reach plc, but at one time editor of the Western Mail. His email address is alan.edmunds@reachplc.com.

Thank you in advance for your support, for which we are very grateful.

Best wishes,

Martin Shipton, Father of the Media Wales NUJ Chapel and Reach Group Chapel Chair

Sarah Hodgson, Mother of the Daily Post Chapel

Ein cyf/Our ref MA/DET/2237/20

Helen Mary Jones AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Diwylliant, yr Iaith Gymraeg a Chyfathrebu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

9 Gorffennaf 2020

Annwyl Helen Mary Jones,

Adroddiad ar Effaith COVID 19 ar y Sector Celfyddydol

Diolch am eich llythyr dyddiedig 4 Mehefin.

Mae'r ymchwiliad hwn wedi tynnu sylw at yr heriau ariannol y mae'r sector celfyddydol yn eu hwynebu, ac mae'r dystiolaeth sydd wedi'i chasglu gan y Pwyllgor wedi bod o gymorth mawr wrth egluro'r meysydd ble y gellid bod angen cymorth ychwanegol.

Rwyf felly'n croesawu'r adroddiad hwn.

Gweler fy ymateb a'm hargymhellion isod.

Argymhelliad 1. *Dylai Llywodraeth Cymru lobïo Llywodraeth y DU i'w hannog:*

- *i barhau â'r Cynllun Cymorth Incwm ar gyfer yr Hunan-gyflogedig y tu hwnt i Mai 2020 ac i'r Cynllun Cadw Swyddi barhau y tu hwnt i Hydref 2020; ac*
- *i'r Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunan-gyflogedig gael ei ddiwygio i sicrhau nad yw unrhyw weithwyr llawrydd yn colli cyfle o fod yn gymwys ar gyfer y cynllun.*

Mae'r cynlluniau hyn wedi rhoi cymorth hollbwysig i'r sector a'r unigolion hynny sy'n dibynnu arnynt am eu bywoliaeth. Mae Llywodraeth Cymru, drwy'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd a Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, wedi cynnig sylwadau i Ganghellor y Trysorlys yn annog Llywodraeth y DU i ymestyn y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws a'r Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunan-gyflogedig. Gan ei bod yn anhebygol bellach y bydd y cynlluniau hyn yn cael eu hystyngiadau, mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r cyhoeddiad diweddar gan Lywodraeth y DU o £1.57 biliwn i ddiogelu sefydliadau diwylliannol a chelfyddydol ledled y DU, sy'n cynnwys £59 miliwn dilynol i Lywodraeth Cymru. Rydym yn derbyn yr argymhelliad.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas.Davies@llyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Argymhelliad 2. Y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu gweithgor digwyddiadau a hamdden i:

- gysylltu gyda Tasglu Adnewyddu Diwylliannol Llywodraeth y DU;
- paratoi canllawiau ail-agor i leoliadau digwyddiadau byw, perfformwyr a busnesau cysylltiedig i'w cyhoeddi erbyn 1 Awst 2020; a
- chydabod na fydd ein sefydliadau celfyddydol mawr o bosibl yn dod yn broffidiol unwaith eto am sawl blwyddyn, a bod yn barod i ymestyn y cyllid cyhoeddus angenrheidiol i sicrhau eu bod yn goroesi.

Rydym yn barod i dderbyn yr argymhelliad hwn, ond o fewn y ffyrdd sydd wedi'u sefydlu, ac wedi'u datblygu gennym i ymateb i'r argyfwng hwn mewn dull agored a thrwy ymgynghori.

Fel portffolio Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, dechreuodd ein proses ymgynghori ganol fis Ebrill gyda cynhadledd rithiol fawr yn cynnwys nifer o randdeiliaid. Mae'r cysylltiad wedi parhau mewn amrywiol leoliadau drwy gydol y cyfnod hwn gyda'r Gweinidog Cysylltiadau Rhyngwladol a'r Iaith Gymraeg a minnau, er enghraifft, yn cyfarfod yn rheolaidd gyda'r pum corff a noddir o fewn y portffolio, gan gynnwys Cyngor Celfyddydau Cymru. Bu y trafodaethau yn parhau ar draws y sector yn hwylus iawn, ar lefel Gweinidogol a swyddogol, yn ogystal â thrafodaethau rheolaidd gyda Llywodraeth y DU. Bydd y cysylltiad yn parhau i lywio gweithgareddau yn y dyfodol wrth inni ddod allan o'r cyfyngiadau symud ac i'r cyfnod adfer.

Mae gweithgorau wedi'u creu i lywio a chefnogi'r broses o greu canllawiau i'n sectorau ac i lywio'r broses o reoleiddio yr adolygiad o'r Coronafeirws bob 21 niwrnod. Bydd angen i'n canllawiau ddatblygu wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio a bydd angen rhagor o ganllawiau ar gyfer lleoliadau perfformiadau byw, megis theatrau a neuaddau cyngerdd. Byddwn yn anelu at ddarparu canllawiau ychwanegol cyn gynted â phosibl.

Rydym yn cydnabod yn llawn yr heriau hirdymor sy'n wynebu'r sector. Mae mentrau cyllido, megis y Cynllun Cadw Swyddi a'r Gronfa Cadernid Economaidd, wedi cynnig achubiaeth i'r sector, ond ni fydd yn ddigon yn yr hirdymor i ddiogelu swyddi a sicrhau y gall ein sectorau celfyddydol ffynnu unwaith eto. Byddwn yn parhau i gydweithio â'n sectorau celfyddydol i sicrhau bod y cymorth wedi'i gynllunio a'i dargedu mor effeithiol â phosibl.

Argymhelliad 3. Er mwyn adnewyddu a chynnal y sector dylai Llywodraeth Cymru ddechrau sgwrsiau gyda cynrychiolwyr y sector celfyddydol i bennu cyfeiriad hirdymor i'r polisïau sy'n gynaliadwy, yn gynhwysfawr ac yn hygyrch.

Rydym yn derbyn yr argymhelliad. Cyn yr argyfwng presennol roeddwn wedi comisiynu adolygiad o'n blaenoriaethau yn y dyfodol ar gyfer y sectorau diwylliant a chwaraeon. Roedd y gwaith hwnnw eisoes wedi dechrau pan ddechreuodd y cyfyngiadau symud a'r argyfwng ehangach. Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio ail-ddechrau'r gwaith hwn ond bellach gyda mwy o bwyslais ar drafod â'n partneriaid a'n rhanddeiliaid i edrych ar sut y gallwn gydweithio i ddod allan yn ddiogel ac yn bositif o'r argyfwng hwn a phennu llwybr positif ar gyfer y dyfodol. Rwyf wedi ymrwmo i wneud y datganiad hwn yn ddiweddarach eleni.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Elis-Thomas'.

Yr Arglwydd Elis-Thomas AC/AM
Y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon
Minister for Culture, Tourism and Sport

Helen Mary Jones AS
Cadeirydd, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

13 Gorffennaf 2020

Annwyl Helen Mary

Deiseb P-05-880 Mae Cymru yn prysur gollu ei henw da o ran cerddoriaeth, a'i threftadaeth

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 13 Mawrth, a drafodwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 23 Mehefin, ynghyd â sylwadau ychwanegol gan y deisebydd.

Yn y cyfarfod hwnnw, cytunodd y pwyllgor i gau'r ddeiseb yng ngoleuni'r ffaith y byddwch yn monitro cynnydd pellach o ran ariannu a darparu gwasanaethau addysg gerddoriaeth, yn dilyn eich adroddiad ar y pwnc yn flaenorol. Wrth wneud hynny, cytunodd y pwyllgor i rannu sylwadau diweddaraf y deisebydd gyda chi.

Mae rhagor o wybodaeth am y ddeiseb, gan gynnwys gohebiaeth gysylltiedig, ar gael ar ein gwefan yn:

<https://busnes.senedd.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=25303>.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â thîm clericio'r Pwyllgor drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost uchod, neu ffonio 0300 200 6454.

Yn gywir





Janet Finch-Saunders AS/MS
Cadeirydd/Chair



Amg: Gohebiaeth gan y deisebydd ar 15.06.20



Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

 SeneddDeisebau@senedd.cymru
 0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

 SeneddPetitions@senedd.wales
 0300 200 6565

Eluned Morgan AS
Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol
Llywodraeth Cymru

17 Mehefin 2020

Annwyl Eluned,

Cyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2020–21

Trafododd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Gyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020–21 yn ein cyfarfod ar 11 Mehefin.

Deallaf fod y dyraniad cyllideb ar gyfer y Gymraeg wedi gostwng £2 filiwn yn eich portffolio. Mae'r nodiadau esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Gyllideb Atodol a osodwyd gerbron y Senedd yn dweud bod yr arbedion hyn ar gael 'o ganlyniad i addasu'r amgylchedd dysgu a rheoli'r ddarpariaeth yn yr hinsawdd sydd ohoni' ac o ganlyniad i ail-flaenoriaethu cyllid yn ymwneud â 'gweithgareddau a oedd wedi'u cynllunio ond nad oes modd iddynt ddigwydd nawr o ganlyniad i'r pandemig neu maent wedi cael eu gohirio neu eu haddasu'.

Sylwaf hefyd i £350,000 gael ei ail-flaenoriaethu o BEL Cymraeg mewn Addysg ym mhorthffolio'r Gweinidog Addysg. Roedd y cyllid hwn i'w ddefnyddio i gefnogi darpariaeth blynnyddoedd cynnar megis Mudiad Meithrin, cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg a Choleg Cymraeg Cenedlaethol.

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wedi rhoi tystiolaeth i ymchwiliad y Pwyllgor i effaith COVID-19 ar feysydd sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor. Mae'n nodi bod y Ganolfan wedi trafod gostyngiad yn ei chyllideb â Llywodraeth Cymru ddiwedd mis Mawrth 2020, a'r canlyniad oedd gostyngiad o £1.5 miliwn yn



Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

✉ SeneddDGCh@senedd.cymru

☎ 0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

✉ SeneddCWLC@senedd.wales

☎ 0300 200 6565

ei chyllideb rhwng Ebrill 2020 a Gorffennaf 2021. O'r gostyngiad gwerth £1.5 miliwn, daw £1.02 filiwn o gyllideb Cymraeg Gwaith. O ganlyniad, bydd yn rhaid i'r Ganolfan oedi peth o'i rhaglen waith arfaethedig ac ystyried cyfleoedd eraill i weithwyr ddysgu Cymraeg.

Sylwaf o'i thystiolaeth fod y Ganolfan wedi ehangu ei dysgu ar-lein i ddarparu ar gyfer y cynnydd yn y galw yn ystod y cyfyngiadau symud. Mae'r ganolfan wedi darparu 89 o ddsbarthiadau ar-lein ac mae wedi cofrestru 1,300 o ddysgwyr. Mae'r cynnydd hwn yn y galw am ddysgu digidol wedi dangos bod awydd ymysg y cyhoedd i ddysgu Cymraeg. Mae'r Pwyllgor am sicrhau ein bod yn datblygu hyn ymhellach ar hyn ar ôl i'r cyfyngiadau symud ddod i ben. Sylwaf hefyd o dystiolaeth y Ganolfan fod trafodaethau yn mynd rhagddynt â Llywodraeth Cymru ynghylch doriadau pellach i'r gyllideb.

Rwy'n mawr obeithio y gallwch chi roi sicrwydd i ni mai mesur dros dro yw'r gostyngiad yn y gyllideb yn eich portffolio, ac y bydd y gyllideb yn cael ei hadfer yn llawn ar ôl Gorffennaf 2021. Yn wir, os ydym am ddatblygu'r cynnydd hwn yn niddordeb pobl mewn dysgu'r iaith ar-lein, bydd angen buddsoddiad ychwanegol i gefnogi dysgu digidol, ochr yn ochr â dulliau dysgu mwy traddodiadol yn y dyfodol.

Rwy'n awyddus i sicrhau na fydd y tir a enillwyd gan y Ganolfan yn cael ei golli. A fydd eich adran yn cynnal dadansoddiad risg o effaith lleihau cyllideb y Ganolfan?

Mae'n hanfodol bod cyllid yn cael ei sianelu i ddelio â bygythiad uniongyrchol COVID-19, ond rwy'n awyddus i'r gostyngiad cyllid beidio â bod yn barhaol. A allwch roi sicrwydd i'r Pwyllgor fod digon o gyllid i gyflawni ymrwymadau Llywodraeth Cymru i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050?

Yn amlwg, rhaid blaenoriaethu adnoddau i leihau niwed uniongyrchol ac anuniongyrchol yn deillio o bandemig COVID-19. Blaenoriaeth hefyd yw cefnogi'r rhai y mae eu bywoliaeth yn y fantol am na allant weithio. Felly, rwy'n croesawu ac yn cefnogi ail-flaenoriaethu £800,000 o gyllideb Digwyddiadau yng Nghymru i gefnogi'r Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen yn sgil canslo digwyddiadau yn 2020. A allwch roi gwybod imi a fyddwch yn cwrdd



â chynrychiolwyr o'r sefydliadau hyn i asesu effaith ariannol canslo'r digwyddiadau hyn? Hoffai'r Pwyllgor hefyd wybod a yw'r Urdd a sefydliadau eraill sy'n cefnogi'r Gymraeg wedi cysylltu â chi am gymorth ychwanegol yn y tymor byr ac yn y tymor hwy.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r cwestiynau yn y llythyr hwn cyn gynted â phosibl.

Yn gywir,



Helen Mary Jones

Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

c.c. Llyr Gruffydd, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid



Eitem 7

Yn rhinwedd paragraff(au) vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon